

Mae 2 ffordd o anrhegu:

1

theBigGive

Arlein www.dolenffermio.org.uk/big-give

Bydd eich rhodd yn **DYBLU** am ddim cost ychwanegol i chi!
(Hyd at inni gyrraedd targed yr ymgyrch wedi rhestru ar y dalenwe)

Mae Dolen Ffermio yn cymryd rhan yn y Big Give Christmas Challenge yn ystod wythnos y Big Give 30ain Tachwedd i 7fed Rhagfyr. Gall y rhodd fod unrhyw faint – ond RHAID rhoi arlein a dim ond rhoddion dderbyniwyd yn ystod yr wythnos Big Give fydd yn cymwysoli.

Os hoffech dderbyn dderbyn cardiau anrheg anfonwch neges e-bost i dfcatalogue@outlook.com gydach manylion.

2

Drwy ddefnyddio ein ffurflen archebu

Dewisiwch eich anrhegion (unrhyw amser – dim rhaid bod yn ystod yr wythnos Big Give ond cofio **na fydd** eich rhodd yn dwblu) drwy ddefnyddio y ffurflen archebu tu mewn i'r Catalog ac anfon e-bost neu bostio i'r cyfeiriad islaw. Gellwch dalu drwy:

Bank transfer (rhowch 'catalogue' fel cyfeirnod)

Enw'r cownt: Dolen Ffermio

Sort code 40 30 13 Rhif cownt 51035401

NEU anfon sic

Siec yn daladwy i 'Dolen Ffermio'

Dolen Ffermio Catalogue, Fronlas Fach, Foel, Y Trallwng SY21 0NY

e-bost: dfcatalogue@outlook.com Rhif ffon 01938 820535

DIOLCH YN FAWR IAWN AM EICH CEFNOGAETH

Bydd pob ceiniog a roddir yn yr ymgyrch yn mynd i'r Prosiect yng Ngora

Lluniau gan : Moses Ekoi, Ruth Akello, Charles Mugarura, Cordelia Weedon

Dyluniad gan : david@goodman.graphics



Dolen Ffermio
Farming Link

theBigGive

Ymgyrch Nadolig 2021

i Sefydliad Hyfforddiant Ngora, Uganda



**DYBLU
RHODDION
ARLEIN!**

Prynwch anrheg & helpu ieuengtid ddod allan o dlodi

Elusen Gofrestedig rhif 1124195

Wedi adeiladu o 9 mlynedd o lwyddiant Prosiect Plant Amddifad a Bregus Ngora a gefnogodd 260 o blant i aros yn yr ysgol, cadw'n iach, ac i adeiladu bywoliaeth cynaliadwy drwy hyfforddiant mewn sgiliau defnyddiol 'rydym yn eanghu y syniad i fenter cyffrous newydd sef Sefydliad Hyfforddiant Ngora. Bydd hwn yn llesu lawer mwy o ieuenctid ac yn eu galluogi i gael cyflogaeth gwell, drwy addysg, sgiliau IT a hyfforddiant i safon ofynion y llywodraeth. Hefyd bydd y sefydliad yn rhoi cyfle i ieuenctid i ddatblygu eu talentau mewn celfyddyd, cerddoriaeth a chwaraeon. Mae Ardal Ngora yn eithriadol o dlawd a nifer fach o ieuenctid sy'n gallu cael addysg ysgol uwchradd neu hyfforddiant galwedigaeth.

Mae Dolen Ffermio wedi caffael safle ardderchog i'r Sefydliad ar 8 acer o dir, gyda ddigon o le i stafellau dysgu, llyfrgell, gweithdai a hefyd caeau i arddangos paramaethu, hyfforddi amaeth-godwigaeth, cadw anifeiliaid a chreu pyllau pysgod.

Bydd arhegion y Catalog eleni yn mynd tuag at ddatblygu y Sefydliad drwy adeiladu mewn dylliau o blaid yr amgylchedd, planu coed a bamboo a chynhyrchu bwyd drwy paramaethu.

Os gwelwch yn dda, cefnogwch y fenter newydd, teilwng yma ac edrychwch ar dudalen 4 sut I DDWBLU EICH RHODDION!



Planu Coed a bamboo £12

Digoedwigo yw'r brif broblem newid hinsawdd yn Uganda, yn benaf oherwydd coed yw'r unig danwydd fforddedig i goginio. Addysg ymarferol yn yr angen planu coed i gynhyrchu tanwydd a ffrwythau, a phlanu bamboo sy'n tyfu'n gyflym iawn ac yn ddirpw y goed fel tanwydd. Bydd hyn eto yn helpu i frwydfro newid hinsawdd. Bydd eich arheg yn helpu myfyrwyr fel Moses a Steven i ymglymu mewn planu amrywiaeth o goed yn cynnwys y coed frwythau orenau a'r mangos yma; maent hefyd yn creu cysgod ar y campws. Bydd angen math o goed i'r dosbarthiadau gwaith saer. Rydym yn rhagweld planu 5000 o goed.

Berfa £15

Nid yw berfau'n gyffredin yn Uganda, ond mae'r ddyfais syml yma'n lleihau gwaith caled adeiladu ac amaethyddiaeth. I ddechrau bydd rhain yn cael eu prynu, ond yn y dyfodol bydd myfyrwyr fel Akello a Rose yn dysgu yn y Sefydliad sut i'w gwneud er lles i'r cymunedau lleol.



Hyfforddiant Paramaethu £20

Gall deffinio paramaethu fel 'cynllunio cynefinoedd cyson i ddynoliaeth'. Felly bydd myfyrwyr yn ymglymu yn nylunio a llunwedd Campws y Sefydliad a hefyd yn dechrau planu ar y safleoedd ddewisiwyd i gynhyrchu bwyd. Mae paramaethu nawr yn rhan o gwricwlwm cenedlaethol ysgolion Uganda. Mae paramaethu yn ffordd ardderchog i ffermwyr cefn-gwlad Uganda facsimeiddio cynhyrchiad a chynyddu mathau o gnwd a defnyddio adnoddau prin, fel dŵr. Mae Hellen yn ffermwr, ond nawr mor argyhoeddedig o fanteision paramaethu mae hi'n athrawes ar y pwnc.



Hyfforddiant mewn gwneud eco-brics £40

Mae'r ffordd draddodiadol o wneud brics yn golygu cael coed i'w cywrio drwy dano. Mae hyn yn gyfrifol am y di-goedio sydd mor amlwg yng Ngora ac Uganda'n gyffredinol. Mae llaw-beiriant gwasgu ddyfeisiwyd a'i waithgynhyrchu yn Uganda yn golygu bod gwneud brics yn llawer mwy teg i'r amgylchedd drwy ddefnyddio isbridd ac ychydig o sment. Maent yn cyd-gloi ac yn golygu nad oes angen fawr o mortar. Bydd ieuenctid fel Emmanuel yn dysgu am y techneg yma fydd yn cael ei ddefnyddio i adeiladu'r Sefydliad a hefyd adeiladu tai lleol. Bydd hyn hefyd yn helpu i frwydfro newid hinsawdd.



Erfynau £6

Bydd erfynau fel haws, rhawiau a chaniau dŵr yn hanfodol yng ngwaith dechrau adeiladu'r Sefydliad a hefyd yng ngwaith paramaethu. Bydd eich hanreg yn rhoi siawns i ieuenctid fel Bosco a Sam gymryd rhan yn hyfforddiant ymarferol i ddatblygu'r Sefydliad.



Hadau Bwydlys £10

Bydd prynu arheg o hadau bwydlys i'w defnyddio yn hyfforddiant sefydlu cylchfaoedd tyfu paramaethu yn galluogi myfyrwyr ddysgu sut i dyfu bwydlys maethlon i deuluoedd cefn gwlad, ac i ddeall eu pwysigrwydd mewn diets. Mae camluniaeth yn gyffredinol yn Uganda, un rhan o dair plant yn grablyd, hanner yn anaemig. Mae'r sefyllfa yn gwaethygu oherwydd ansefodlygrwydd y tywydd yn lleihau cynhaeafau. Bydd addysg maetheg ymarferol yn y Sefydliad Hyfforddiant yn helpu lleihau y broblem.

